***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 50

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" ("*council tax reduction scheme*") yw cynllun a wnaed gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(**1**), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

(**1**) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3) ac O.S. 2015/971.